**Sesiwn Graffu ar y Cyd**

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

**Y Pwyllgor Cyllid**

**Dyddiad:** **15 Tachwedd 2018**

**Teitl:** **Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20**

---

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r cyfarfod cydamserol o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cyllid ynghylch asesiadau effaith mewn perthynas â Chyllideb ddrafft 2019-20.

2. Fel y nodwch yn eich llythyr dyddiedig 23 Awst, mae materion sy'n ymwneud ag asesiad effaith yn ymestyn y tu hwnt i gylch gwaith eich tri phwyllgor ac rydym yn deall y bydd pwyllgorau polisi unigol yn craffu ar bortffolios Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion ynghylch asesiadau effaith yn eu meysydd cyfrifoldeb hwy.

## Y dull o gynnal yr Asesiad Effaith Integredig Strategol eleni

3. Mae'r Gyllideb ddrafft amlinellol ar gyfer 2019-20, a gyhoeddwyd ar 2 Hydref, yn nodi cynlluniau gwariant arfaethedig (2019-20 yn unig) a chyllid cyfalaf (2019-20 a 2020-21), trethiant a chynigion benthyca. Rydym yn nodi ein ffordd o ystyried paratoadau'r gyllideb ym mhennod pedwar o naratif y gyllideb ddrafft amlinellol. Rydym wedi datblygu a chyflwyno naratif y gyllideb mewn ffordd wahanol eleni, fel ei bod yn haws gweld sut mae ein cynlluniau gwariant wedi eu cysoni â'n blaenoriaethau.

4. Cafodd y cynigion gwariant manwl ar gyfer pob portffolio'r llywodraeth eu cyhoeddi yn ail gam y gyllideb ar 23 Hydref yn unol â phroses newydd y gyllideb, a gytunwyd gyda'r Cynulliad Cenedlaethol a'i chyflwyno y llynedd.

5. Yn yr amlinelliad o Gyllideb ddrafft 2019-20, rydym yn nodi ein blaenoriaethau gwariant, gan ganolbwyntio ar berfformiad, diogelu a thâl yn y meysydd canlynol:

    - Iechyd a gofal cymdeithasol
    - Llywodraeth leol

- Buddsoddiad cyfalaf, i gefnogi darparu gwasanaethau lleol
- Cefnogi ein busnes a chymunedau drwy ansicrwydd Brexit

6. Yn ail, rydym yn nodi penderfyniadau i gefnogi'r chwe maes blaenoriaeth yn *Ffyniant i Bawb.* Dyma'r chwe maes lle y dangoswyd y gall ymyriad cynnar a chydgysylltu ar draws gwasanaethau gael effaith sylweddol ar ganlyniadau. Y chwe maes blaenoriaeth yw – blynyddoedd cynnar; tai; gofal cymdeithasol; gwell iechyd meddwl; sgiliau a chyflogadwyedd a datgarboneiddio.

7. Fel rhan o broses y gyllideb, mae gennym gyfrifoldeb i ystyried ein penderfyniadau drwy nifer o safbwyntiau er mwyn deall eu heffaith. Mae asesiad integredig yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o effaith penderfyniadau ar wahanol grwpiau o bobl. Unwaith eto, rydym wedi defnyddio'r dull hwn.

8. Mae rhai o'n cyfrifoldebau yn statudol ac maent i gyd yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Y rhain yw cydraddoldeb a hawliau dynol, hawliau plant, y Gymraeg, newid hinsawdd, prawfesur gwledig, iechyd, bioamrywiaeth a datblygu economaidd. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn ystyriaeth ganolog wrth asesu effaith penderfyniadau.

9. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol wedi'i nodi yn yr un ffordd â naratif y gyllideb fel ei bod yn glir am ystyried y dystiolaeth ac effaith sy'n cefnogi ein blaenoriaethau gwariant. Yn dilyn adborth gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y llynedd, rydym wedi cymryd camau i dynnu sylw at effaith Hawliau Plant y Cenhedloedd Unedig mewn cysylltiad â'n proses o bennu cyllideb.

10. Rydym hefyd wedi newid fformat y Gyllideb ddrafft fanwl - cam dau o'r gyllideb - eleni, yn dilyn adborth gan bwyllgorau'r Cynulliad a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym wedi llunio'r naratif o dan 12 amcan lles a chwe maes blaenoriaeth *Ffyniant i Bawb* felly rydym yn fwy clir o ran sut mae penderfyniadau am ariannu yn cefnogi ein hamcanion. Caiff yr amcanion llesiant eu pennu er mwyn manteisio orau ar gyfraniad Llywodraeth Cymru i'r amcanion llesiant cenedlaethol.

11. Am y tro cyntaf, rydym hefyd yn darparu Asesiad Effaith Integredig Strategol ychwanegol fel rhan o'r Gyllideb ddrafft, a gaiff ei gynnwys fel atodiad i ddogfen y gyllideb a gyhoeddwyd ar 23 Hydref.

## Gwelliannau penodol a wnaed i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol ers adolygiad 2016 o asesiadau effaith Llywodraeth Cymru

12. Polisïau, rhaglenni, buddsoddiadau a deddfwriaeth lwyddiannus yw'r rhai sydd wedi cael eu hasesu'n briodol o ran eu heffaith yn y cylch cyn iddynt gael eu gweithredu.

13. Rydym wedi bod yn gweithio i ddatblygu ein ffordd o ymdrin ag asesiadau effaith, sy'n rhan annatod o ddatblygu dulliau cynhwysfawr a chytbwys o wneud

polisïau. Mae arfarnu'r effaith - yn gadarnhaol ac yn negyddol- yn ein helpu i dargedu ein hadnoddau cynyddol brin ar y camau hynny a gaiff yr effaith fwyaf ar lesiant pobl a Chymru. Mae dull asesu integredig yn sicrhau asesiad mwy realistig o effaith gyffredinol penderfyniadau gwario - effeithiau sy'n gysylltiedig â'i gilydd ac na ellir eu hystyried ar eu pen eu hunain.

14. I ymateb i'r adroddiad *Reducing Complexity and Adding Value: A Strategic Approach to Impact Assessment in the Welsh Government*[1] gan y Ganolfan Polisi Cyhoeddus i Gymru (y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru bellach), rydym wedi datblygu offeryn asesu integredig newydd. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i gynnal asesiad cyflawn o effaith y camau arfaethedig, gan ddwyn ynghyd yr amrywiaeth o ddyletswyddau mewn fframwaith deallus, gan leihau cymhlethdod a dyblygu ac integreiddio'r broses asesu effaith gyda chyfeiriad sylweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cafodd ei lansio ym mis Gorffennaf 2018 a chaiff ei adolygu ar ôl chwe mis.

15. Bydd yr offeryn newydd yn ein helpu i gynnal asesiad cyflawn o effaith y camau arfaethedig, gan gynnwys effeithiau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol.

16. Mae elfennau sylweddol yr asesiadau effaith blaenorol o ran hawliau plant, cydraddoldeb, y Gymraeg ac asesiadau effaith eraill wedi cael eu hymgorffori yn yr asesiad effaith integredig.

17. Ym mis Tachwedd 2018, bydd swyddogion yn mynd i gyfarfod o banel cynghori Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ystyried ymdriniaeth Llywodraeth Cymru o asesiad effaith integredig. Mae aelodau'r panel yn cynnwys y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, y Comisiynydd Pobl Hŷn, Comisiynydd y Gymraeg, Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill.

## Sut y llywiodd yr Adolygiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol y ffordd y cynhaliwyd yr Asesiad Effaith Integredig Strategol eleni

18. Cam 1 yr Adolygiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol yw'r cam cyntaf o adolygiad dau gam. Mae'r adroddiad gan Chwarae Teg[2] yn archwilio polisïau cydraddoldeb rhywiol Llywodraeth Cymru ac yn eu hystyried ynghyd ag adroddiad y Ganolfan Polisi Cyhoeddus i Gymru ar arfer gorau byd-eang *Rhoi Cydraddoldeb wrth Wraidd Penderfyniadau*[3].

19. Canfu'r adolygiad bod anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, er bod cymaint wedi'i gyflawni yng Nghymru, yn parhau i fod yn un o nodweddion ystyfnig bywyd yng Nghymru.

[1] https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2018/04/Impact-Assessments_FINAL-30-Apr.pdf
[2] https://www.cteg.org.uk/wp-content/uploads/2018/07/FINAL-Rapid-Review-of-Gender-Equality-Phase-One-Cymraeg.pdf

[3] https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/rhoi-cydraddoldeb-wrth-wraidd-penderfyniadau/

20. Bydd cam 2 yr adolygiad yn cynnwys asesiad o i ba raddau y bydd gan Gymru fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol effeithiol ac integredig sy'n cynnwys rhywedd mewn polisïau a phenderfyniadau gwario a hynny mewn ffordd ystyrlon.

21. Bydd adroddiad Cam 2 o'r adolygiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019. Bydd yr amseriad hwn hefyd yn caniatáu i adborth o'r adolygiad o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol gael ei ystyried.

## Sut y cafodd hawliau plant eu hystyried a'u hasesu ar gyfer y gyllideb ddrafft hon, yn unol â dyletswydd sylw dyledus Llywodraeth Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

22. Fel rhan o welliannau parhaus i broses y gyllideb, rydym yn mabwysiadu dull integredig o gynnal o'r Gyllideb. Eleni rydym wedi cynnwys asesiad effaith integredig strategol fel rhan o'r Gyllideb ddrafft amlinellol a'r gyllideb ddrafft fanwl. Wrth fabwysiadu'r dull integredig hwn rydym yn parhau i adlewyrchu'r effeithiau ar hawliau plant yn ogystal ag anfantais economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg, cydraddoldeb a datblygu cynaliadwy drwy lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Amlinellwyd ein dull gweithredu ar Asesiad Effaith ar Hawliau'r Plentyn mewn gohebiaeth i Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Mehefin (gweler gopi yn Atodiad 1).

## Sut roedd effaith benthyciadau a phwerau treth incwm newydd Llywodraeth Cymru wedi llywio'r Asesiad Effaith Integredig Strategol

### *Cyfraddau treth incwm Cymru*

23. Rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd yw un o amcanion allweddol gweithredu trethi newydd Cymru, gan gynnwys cyflwyno cyfraddau treth incwm Cymru o fis Ebrill 2019.

24. Cyflwynodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol adroddiad ar effaith cronnol diwygio trethi a lles o ran treth incwm, cyfraniadau yswiriant gwladol a threthi anuniongyrchol sydd, hyd yn hyn, wedi dod o dan gyfrifoldeb Llywodraeth y DU. Roedd yn dangos enillion o newidiadau i dreth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol (yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn termau real yn y lwfans personol di-dreth ers 2010) ond colledion o newidiadau i drethi anuniongyrchol (yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn TAW i 20% yn 2011).

25. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei dull o drin trethi a'i hegwyddorion ar gyfer trethi Cymru yn ei Fframwaith Polisi Trethi[4]. Mae'r rhain yn cynnwys yr

[4] Fframwaith Polisi Trethi Llywodraeth Cymru, Mehefin 2017: https://gov.wales/docs/caecd/publications/170612-framework-cy.pdf

egwyddorion allweddol y dylai trethi Cymru godi refeniw er mwyn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl; dylid eu datblygu drwy gydweithrediad a chyfranogiad a chyfrannu'n uniongyrchol i nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Y rhai sy'n elwa fwyaf o wasanaethau cyhoeddus yw'r rhai sydd ar incwm is na'r cyfartaledd, ar y cyfan. Ar gyfartaledd, mae rhai grwpiau a ddiogelir yn fwy tebygol o fod yn y categori yma. Mae gwariant anghymesur, hefyd ar bobl ifanc a phobl hŷn o ran addysg a gwasanaethau iechyd.

26. Yn 2018-19, defnyddiodd Llywodraeth Cymru ei phwerau trethu newydd i gynyddu graddoliad: mae gan y dreth trafodiadau tirlenwi, sydd wedi disodli treth dir y dreth stamp Llywodraeth y DU yng Nghymru, sydd â'r trothwy cychwynnol uchaf ar gyfer cyfraddau preswyl yn y DU a'r gyfradd dreth gychwynnol isaf ar gyfer prynu eiddo busnes yn y DU.

27. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r system drethi i hyrwyddo tegwch a thwf economaidd a helpu i fynd i'r afael â thlodi. Caiff unrhyw benderfyniadau polisi treth yn y dyfodol eu datblygu o fewn y *Fframwaith Polisi Trethi*[5] gydag asesiadau penodol o'r effaith ar aelwydydd ac unigolion yng Nghymru yn cael eu cynnal fel y bo angen.

28. Roedd maniffesto Llafur Cymru yn cynnwys ymrwymiad i gynyddu cyfraddau treth incwm Cymru ac mae'r gyllideb ddrafft amlinellol yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn. Ein blaenoriaeth yw hyrwyddo newid trefnus i'r cyfraddau treth incwm newydd ar gyfer Cymru, a fydd yn parhau i gael eu gweinyddu gan Gyllid a Thollau EM pan gânt eu cyflwyno ym mis Ebrill 2019.

### *Benthyca*

29. Mae benthyca yn galluogi Llywodraeth Cymru i gynyddu ei grym gwario cyfalaf cyffredinol – yn uwch na'r uchafswm a osodir gan Drysorlys EM drwy'r grant bloc – i gefnogi ein blaenoriaethau buddsoddi seilwaith a nodir yn y *Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru*[6]. Gan ddefnyddio ein pwerau benthyca newydd, gallwn ddarparu buddsoddiadau strategol ar raddfa fawr na fyddent, fel arall, wedi bod yn fforddiadwy, gan ddefnyddio dim ond ein cyllidebau cyfalaf craidd cyffredinol yn unig.

30. Mae'r gostyngiad yn ein cyllideb cyfalaf yn golygu y bydd angen i ni barhau i ddatblygu ffyrdd newydd ac arloesol o lenwi'r bwlch cyfalaf. Yr egwyddor sy'n sail i ddefnyddio cyfalaf yng Nghymru yw y byddwn bob amser yn defnyddio'r dull rhataf o gyfalaf cyn defnyddio ffynonellau cyfalaf eraill. Byddwn bob amser yn defnyddio cyfalaf cyffredinol, gan gynnwys cyfalaf trafodiadau ariannol

---

[5] Fframwaith Polisi Trethi Llywodraeth Cymru, Mehefin 2017: https://gov.wales/docs/caecd/publications/170612-framework-cy.pdf

[6] https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-07/cynllun-buddsoddi-yn-seilwaith-cymru-adolygiad-canol-cyfnod-2018.pdf

cyfalaf, a sicrhau ein bod yn defnyddio pob ceiniog sydd ar gael i Gymru, i ariannu ein hymrwymiadau seilwaith.

31. Mae’r Gyllideb ddrafft amlinellol a manwl yn nodi sut y caiff ein cyllidebau cyfalaf, gan gynnwys benthyca, eu gwario ac mae asesiadau effaith integredig strategol yn nodi effeithiau’r buddsoddiadau hyn.

32. Fodd bynnag, nid arian ychwanegol yw benthyca cyfalaf a rhaid ei ad-dalu. Mae canlyniad refeniw i wariant cyfalaf drwy fenthyca. Felly, rydym yn meddwl yn ofalus am gostau benthyca bob tro rydym yn bwriadu defnyddio’r cyfleuster, gan fod cost cyfle sylweddol.

## Sut mae’r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn dystiolaeth o effaith ariannol penderfyniadau Llywodraeth Cymru

33. Mae’r asesiad effaith integredig strategol yn nodi’r effaith ar bolisi a darpariaeth penderfyniadau cyllideb a gwariant, a wnaethpwyd. Ategir hyn gan y tablau ariannol ym mhennod pump y naratif Cyllideb drafft amlinellol a’r tablau Llinell Gwariant Cyllidebol mwy manwl, a gaiff eu cyhoeddi ochr yn ochr â’r Gyllideb ddrafft.

34. Wrth werthuso penderfyniadau cyllideb, rydym wedi gwneud penderfyniad cymesur, gan wneud arfarniad cychwynnol ynghylch a oes angen asesiad effaith llawn, er enghraifft, pan mae dyraniad cyllid yn fach iawn o’i gymharu â’r gyllideb gyfan, mae’r newid yn rhan o raglen gau wedi’i chynllunio, pan fydd canlyniadau’n cael eu darparu mewn ffordd wahanol neu ddulliau effeithlonrwydd wedi cael eu gwneud.

35. Mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud yng nghyd-destun rhagolygon heriol iawn o ran cyllid cyhoeddus wrth i ni gychwyn ar nawfed flwyddyn o gyni ac wrth inni nesáu at ddyddiad gadael yr Undeb Ewropeaidd, rydym yn dal yn ansicr o’r fargen derfynol. Bydd Llywodraeth y DU yn cynnal Adolygiad o Wariant yn 2019, er nad yw manylion terfynol hyn wedi cael eu cyhoeddi eto.

36. Mae hyn i gyd yn cyfyngu ar ein gallu i gynllunio y tu hwnt i’r tymor byr. Rydym yn cydnabod - ac yn deall - galwadau ein partneriaid yn y sector cyhoeddus i gyllidebu dros gyfnod hwy pan fydd hynny’n bosibl er mwyn cefnogi’r gwaith o wneud cynlluniau ariannol ymlaen llaw. Mae’n rhaid i’n huchelgais i gyhoeddi cynlluniau am dros 12 mis gael ei gloriannu gan ein gallu i ddarparu rhagdybiaethau cynllunio realistig a synhwyrol. Roedd yn rhaid gwneud y penderfyniad i gyhoeddi cynlluniau refeniw ar gyfer 2019-20 yn unig a chynlluniau cyfalaf ar gyfer y ddwy flynedd nesaf - 2019-20 a 2020-21.

37. Er mwyn cynnal gwaith cynllunio ariannol y tu hwnt i'r dyfodol agos, mae adroddiad y Prif Economegydd[7], a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft amlinellol, yn rhoi dadansoddiad o'r rhagolygon ariannol tymor canolig, a fydd yn helpu i lywio senarios ar gyfer gwariant o ran adnoddau yn y dyfodol yng Nghymru.

**Sut y gwnaeth Strategaeth Cymraeg 2050, ynghyd â'r Adolygiad Brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2017-2020), ac a wnaeth argymhellion penodol ynghylch buddsoddi cyfalaf, effeithio ar yr Asesiad Effaith Integredig Strategol eleni.**

38. Gwnaeth yr *Adolygiad Brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20* argymhellion penodol am fuddsoddi cyfalaf. Ym mis Ionawr, dyrannodd Llywodraeth Cymru £30m o gyfalaf yn ychwanegol i gefnogi twf addysg Gymraeg. Wrth gyfuno'r buddsoddiad hwn â phrosiectau sydd wedi'u hanelu at gynyddu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, rydym wedi gallu cyhoeddi cefnogaeth i brosiectau gyda gwerth cyfalaf o dros £51m. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar bobl iau a bydd yn cefnogi twf y defnydd o'r Gymraeg mewn addysg, gan gefnogi ein huchelgais a nodir yn *Cymraeg 2050*.

39. Mae *Cymraeg 2050* yn nodi bod angen i ni gyrraedd sefyllfa lle mae'r Gymraeg yn elfen annatod o fywyd bob dydd. Mae addysg yn ganolog i'n gweledigaeth, ond mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein pobl ifanc yn gadael y system addysg yn barod ac yn falch o ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun.

40. Yn y Gyllideb ddrafft amlinellol a'r Gyllideb ddrafft fanwl, fe wnaethom osod asesiad effaith integredig strategol lle y caiff penderfyniadau cyllideb effaith ar y Gymraeg, i gefnogi *Cymraeg 2050*. Dangosodd yr arolwg flynyddol ddiweddar o'r boblogaeth ganlyniadau calonogol, gyda chynnydd yn cael ei gofnodi yn nifer y siaradwyr Cymraeg.

41. Rydym yn cefnogi Cymraeg mewn addysg gyda chyllideb o £29m yn 2019-20. Mae hyn yn cynnwys cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg i gynnwys gweithredu argymhellion a wnaed o fewn Adolygiad Brys Aled Roberts o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg; darparu hyfforddiant ymarferwyr drwy'r Cynllun Sabothol; darparu hyfforddiant y Gymraeg; a chyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16..

42. Un o themâu canolog Cymraeg 2050 yw'r angen i greu amodau ffafriol ynghylch seilwaith a chyd-destun, gan gynnwys, er enghraifft, cymuned ac economi, diwylliant a'r cyfryngau a thechnoleg ddigidol. Rydym yn buddsoddi £5.9m drwy'r Gymraeg yn uniongyrchol, ond bydd cyfraniadau gan bob maes portffolio fel y gallwn gyrraedd y sefyllfa lle mae'r Gymraeg yn elfen annatod o bob agwedd ar fywyd bob dydd. Fel rhan o gytundeb cyllideb Plaid Cymru,

[7] https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/cyllideb-cymru-2018-adroddiad-y-prif-economegydd.pdf

rydym hefyd wedi darparu dyraniad cyfalaf ychwanegol o £2.75m i wella gwersylloedd yr Urdd yng Nglan-llyn, ger Bala a Llangrannog.

43. Mae’r Cynllun Gweithredu Economaidd yn cydnabod bod yr economi yn rhan annatod o greu’r amodau cymdeithasol lle y gall siaradwyr Cymraeg aros mewn cymunedau lle y siaredir Cymraeg, neu ddychwelyd i’r cymunedau hynny. Buddsoddi mewn swyddi o safon a rhanbarthau, sy’n fannau deniadol i fyw, i weithio a buddsoddi, ac a fydd yn cynnig rheswm i bobl aros neu ddychwelyd i weithio a byw mewn cymunedau lle mae’r Gymraeg yn ffynnu.

44. Mae’r Gymraeg yn rhan sylweddol o ddiwylliant hanesyddol a hunaniaeth Cymru. Mae dathlu diwylliant unigryw, iaith ac ymdeimlad o le Cymru yn ganolog i frand Cymru. Byddwn yn dod â’r Gymraeg yn fwy fyth i’r amlwg fel pwynt gwerthu allweddol ar gyfer Cymru – yn arbennig o ran twristiaeth mewn marchnadoedd rhyngwladol allweddol. Rydym hefyd yn buddsoddi mewn ehangu ein swyddfeydd dramor er mwyn helpu i agor marchnadoedd newydd ac ehangu cyfleoedd ar gyfer busnesau Cymru.

Atodiad A

**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

Mehefin 2018

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 15 Mai, ynghylch craffu ar Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Rwy'n ateb fel Ysgrifennydd y Cabinet â chyfrifoldeb dros broses y Gyllideb.

**Tryloywder y Gyllideb**

Yn unol ag ymrwymiad y llywodraeth hon i dryloywder a bod yn agored, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Cynulliad Cenedlaethol dros nifer o flynyddoedd i fireinio cyflwyniad ac ansawdd gwybodaeth am y Gyllideb er mwyn sicrhau craffu effeithiol ar gynigion y llywodraeth.

Mae'r gwaith hwn yn cydnabod cymhlethdod yr wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno ar amrywiol adegau yn ystod cylch y Gyllideb, a'r amrywiol ddibenion y mae rhanddeiliaid yn defnyddio'r wybodaeth ar eu cyfer.

Llynedd, mewn cydnabyddiaeth o gyfrifoldebau cyllidol newydd y llywodraeth - gan gynnwys pwerau trethu a benthyg ychwanegol - cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru ar broses newydd ar gyfer y Gyllideb. Roedd hyn yn cynnwys protocol yn gosod proses dau gam, sydd wedi arwain at gyhoeddi mwy o fanylion a gwybodaeth ategol yn ystod dau gam proses y gyllideb.

Fel rhan o'r protocol, cytunwyd i gyhoeddi gwybodaeth ar lefel BEL (Llinell Wariant yn y Gyllideb) - lefel fanylach na'r hyn a gyhoeddwyd o'r blaen.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn parhau i adolygu cyflwyniad ac ansawdd gwybodaeth y Gyllideb, ac fe fyddaf yn ystyried y dystiolaeth a'r adborth o'r pwyllgorau, gan gynnwys y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

**Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**

Fel rhan o'r gwelliannau parhaus i broses y Gyllideb, rydym wedi edrych mewn ffordd gynyddol soffistigedig ar asesiadau effaith drwy gyhoeddi Asesiad Effaith Integredig Strategol wrth ochr y Gyllideb ddrafft.

Wrth weithio mewn ffordd integredig rydym yn parhau i adlewyrchu'r effaith ar hawliau plant yn ogystal ag anfantais economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg, cydraddoldeb a datblygu cynaliadwy drwy wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae asesiadau o effaith y cynlluniau gwario manwl yn rhan o ail gam proses y Gyllideb. Gan mai Cyllideb 2018-19 oedd y gyntaf i ni ei chyhoeddi mewn dau gam, rydym yn cydnabod bod modd i ni wneud mwy i wella asesiadau effaith o ddatblygu polisïau i broses y Gyllideb.

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi argymell y dylai cyllidebau drafft yn y dyfodol ddarparu esboniad o'r ffordd y gwnaethpwyd penderfyniadau. Mae'r argymhelliad hwn yn gyson â phrosiect Llywodraeth Cymru i ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer asesiadau effaith, a fydd yn cael ei gyflwyno ym mis Gorffennaf.

Ymysg yr amcanion ar gyfer y fframwaith mae darparu dibenion clir a diamwys ar gyfer asesiadau effaith ar draws amrywiol ymyraethau'r llywodraeth; lleihau cymhlethdodau a defnyddio asesiadau effaith mewn ffordd gymesur wrth edrych ar ymyriadau. Bydd ein dull gweithredu yn canolbwyntio ar ansawdd y ddealltwriaeth, y dystiolaeth a'r crebwyll ac integreiddio proses asesiadau effaith gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid.
Cabinet Secretary for Finance